



Asesu Effaith Angladdau ar yr Amgylchedd

Dulliau llai ecogyfeillgar, llai cynaliadwy a mwy dwys			Dulliau mwy ecogyfeillgar, mwy cynaliadwy a llai dwys	
Pêr-eneinio gan ddefnyddio hylifau sy'n seiliedig ar fformaldehyd	Pêr-eneinio gan ddefnyddio cynnyrch naturiol a'r hylifau'n draenio i'r system garthffosiaeth	Pêr-eneinio	Dim pêr-eneinio na chadw'r corff yn oer cyn angladd sy'n cael ei gynnal ar ôl 5 diwrnod neu ragor	Dim pêr-eneinio na chadw'r corff yn oer cyn angladd sy'n cael ei gynnal cyn pen 5 diwrnod neu lai
Casged Americanaidd / arch draddodiadol o bren nad yw'n gynaliadwy a metel	Arch draddodiadol o sglodfwrdd / MDF ag argaen a handlenni plastig	Math o arch	Cardbord, bambŷ neu gynnyrch gwyrdd tebyg, ond nad yw'n cael ei gynhyrchu'n lleol	Gwiall, papier mâché, pren o ffynonellau cynaliadwy a gynhyrchwyd yn lleol
Blodau a gludwyd mewn awyren wedi'u lapio mewn plastig ac wedi'u gosod mewn oasis	Blodau a gludwyd mewn awyren wedi'u lapio mewn deunydd a ailgylchwyd a chompost o ddeunydd gwyrdd.	Blodau	Blodau a gynhyrchwyd yn lleol wedi'u lapio mewn deunydd a ailgylchwyd a chompost o ddeunydd gwyrdd	Blodau a gynhyrchwyd yn yr ardd/ y cartref heb eu lapio neu roddion at achos da yn lle blodau
Amlosgi ar yr un diwrnod mewn arch draddodiadol (allyriadau mwyaf)	Arch eco-gyfeillgar (hanner yr allyriadau) neu claddu'n ddwfn, claddu mewn pridd clai neu o fewn y lefel trwythiad (rhag llygru dŵr)	Claddu ac amlosgi	Claddu mewn bedd a ddefnyddiwyd eisoes neu fedd sydd wedi'i adfer. Claddu mewn mynwent naturiol / coetir lle caiff y glaswellt ei dorri'n aml	Claddu mewn mynwent naturiol / coetir lle na chaiff y glaswellt ei dorri mwy na dwywaith y flwyddyn

Dulliau llai ecogyfeillgar, llai cynaliadwy a mwy dwys			Dulliau mwy ecogyfeillgar, mwy cynaliadwy a llai dwys	
Amlosgi traddodiadol mewn amlogfa aneffeithlon	Amlosgi lle mae'r staff yn gweithio mewn sifftiau a lle caiff eirch eu cadw am 48 awr i arbed tanwydd	Defnyddio ynni	Claddu mewn bedd a dorwyd â pheiriannau	Claddu mewn bedd a dorwyd â llaw
Angladd dros 20 milltir o'r cartref	Angladd o fewn 20 milltir o'r cartref	Teithio i'r angladd	Angladd o fewn 10 milltir o'r cartref	Angladd o fewn 5 milltir o'r cartref
Cofeb a wnaed o garreg a fewnforiwyd	Cofeb a wnaed o garreg o'r DU	Cofeb / carreg fedd	Cofeb a wnaed o garreg a ail-gylchwyd neu bren o ffynhonnell gynaliadwy	Dim cofeb, neu gofeb bapur, felwm, lledr etc neu ymuno â'r Cynllun Coeden Goffa
Ymweld bob dydd i adael blodau a gludwyd mewn awyren, potiau plastig, addurniadau etc.	Ymweld tua 3 gwaith yr wythnos i adael blodau a gludwyd mewn awyren, potiau plastig, addurniadau etc	Gofalu am y bedd	Ymweld yn rheolaidd i adael blodau a gynhyrchwyd yn y DU, neu gynnyrch 'gwyrdd' arall a'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu	Byth yn ymweld, neu'n ymweld yn achlysurol iawn heb adael unrhyw deyrngedau
Ymweld bob dydd mewn car	Ymweld tua 3 gwaith yr wythnos mewn car	Ymweld â'r bedd	Ymweld tua 6 gwaith y flwyddyn mewn car	Byth yn ymweld, neu'n ymweld ar droed.
Torri glaswellt yn aml, cynnal a chadw dwys, dim ardal gadwraeth	Llai o gynnal a chadw, rhywfaint o blannu brodorol a gwaith cadwraeth	Rheoli mynwentydd	Rhywfaint o waith cadwraeth, plannu coed a thorri glaswellt dim ond yn achlysurol iawn	Cynllun Rheoli Safle Ecolegol

Os hoffech gopi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun neu ar fformat arall, fel print bras, braille neu ar dâp sain, ffoniwch yr 01352 703360 / 703361 / 703362